Cynigion Ysgol Uwchradd John Summers – Cwestiynau ac Atebion

Derbyn Disgyblion

C – A fyddaf yn gallu gwneud cais am le yn Ysgol Uwchradd John Summers yn Hydref 2015 ar gyfer dechrau ym mlwyddyn 7 ym mis Medi 2016?

A: Byddwch Bydd Ysgol Uwchradd John Summers yn dal i fod yn ddewis yn y broses dderbyn ar gyfer Ysgolion Uwchradd Sir y Fflint yn hydref 2015 i ddisgyblion ym mlwyddyn 6 sy'n dymuno dechrau yn Ysgol Uwchradd John Summers ym mis Medi 2016.

C – A fyddaf yn gallu gwneud cais am le yn Ysgol Uwchradd John Summers yn Hydref 2016 ar gyfer dechrau ym mlwyddyn 7 ym mis Medi 2017?

A: NA FYDDWCH Yn amodol ar benderfyniad y Gweinidogion i gau Ysgol Uwchradd John Summers, ni fydd yr ysgol yn cael ei chynnwys fel dewis yn y broses derbyn disgyblion ar gyfer ysgolion Uwchradd Sir y Fflint yn hydref 2016.

C – A fydd lleoedd chweched dosbarth ar gael yn Ysgol Uwchradd John Summers ym mis Medi 2016?

A: NA FYDD Yn amodol ar benderfyniad gweinidogion i gau Ysgol Uwchradd John Summers ar 31 Awst 2016. Bydd darpariaeth ôl-16 ar gael yn y canolbwynt ôl-16 yng Ngholeg Cambria, Cei Connah.

C – Sut allaf wneud cais am le yn y canolbwynt ôl-16?

A: Caiff y broses recriwtio ddechreuol ar gyfer derbyn myfyrwyr i'r canolbwynt ôl-16 ei gweinyddu ar y cyd gan eich ysgol bresennol. Bydd lleoedd yn cael eu neilltuo i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o Flwyddyn 12 mewn ysgolion partneriaeth i flwyddyn 13 yn y canolbwynt arfaethedig. Ar ôl hynny, caiff y broses o dderbyn myfyrwyr i'r canolbwynt ôl-16 ei rheoli yn uniongyrchol gan Goleg Cambria.

C - Pa ysgol allaf ei mynychu os bydd Ysgol Uwchradd John Summers yn cau?

A: Gallwch fynegi dewis ar gyfer unrhyw ysgol yn Sir y Fflint; fodd bynnag, bydd y Cyngor yn dyrannu lleoedd yn unol â'i drefniadau derbyn disgyblion.

Ar gyfer derbyn disgyblion y tu allan i'r rownd dderbyn arferol, caiff dewisiadau rhieni eu cyflawni oni bai fod y grŵp blwyddyn yr ydych wedi gwneud cais amdano yn ordanysgrifiedig ac os nad oes lle ar gael. Mewn achosion felly, cynigir ysgol arall i rieni a gallant ymarfer eu hawl i apelio.

C – A oes lle mewn ysgolion eraill?

A: OES, mae digon o leoedd mewn ysgolion lleol eraill i ateb y galw yn yr ardal. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn adolygu'n barhaus wrth i ni symud drwy'r broses ymgynghori. Os bydd angen mwy o le mewn ysgolion lleol eraill bydd y cyngor yn ystyried a blaenoriaethu'n unol â hynny.

Cynigion Ysgol Uwchradd John Summers – Cwestiynau ac Atebion

C – Ysgol Uwchradd Penarlâg yw ein ysgol agsoaf os bydd Ysgol Uwchradd John Summers yn cau, a fyddaf yn cael lle yno?

A: Ar hyn o bryd, mae nifer y lleoedd sydd ar gael ym mlynyddoedd 8 i 11 yn Ysgol Uwchradd Penarlâg yn gyfyngedig.

I ddisgyblion sydd ym mlwyddyn 6 ar hyn o bryd a fyddai fel arfer yn trosglwyddo i Ysgol Uwchradd John Summers, efallai mai Ysgol Uwchradd Penarlâg fydd yr ysgol agosaf. Byddai dewisiadau i fynychu Ysgol Uwchradd Penarlâg yn cael eu rheoli yn unol â'r meini prawf derbyn disgyblion a bydd y rheiny sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael lleoedd blaenoriaeth.

Cludiant

C A oes llwybrau cerdded digonol i ysgolion uwchradd eraill?

A: OES, mae nifer o lwybrau cerdded diogel digonol i'r disgyblion hynny sy'n byw o fewn y trothwy 3 milltir i Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Ysgol Uwchradd Penarlâg.

C: Nid wyf yn siŵr pa mor bell yw fy ysgol uwchradd newydd?

A: Gallwch wneud cais am gludiant am ddim i'r Cyngor a chaiff eich cymhwyster ei asesu yn unol â'r meini prawf pellter.

C: Beth os wyf yn credu fod y daith i'r ysgol yn un beryglus?

A: Caiff unrhyw geisiadau gan rieni i'r perwyl hwn eu hasesu yn unol â'r gweithdrefnau asesu risg o dan y Canllaw Gweithredol Teithio i Ddysgwyr 2014.

Addysg

C: A fydd addysg fy mhlentyn yn cael ei effeithio?

A: NA FYDD, mae'r Cyngor yn gwneud cynlluniau manwl i sicrhau parhad addysg a throsglwyddiad esmwyth gydag Ysgol Uwchradd John Summers a'r Ysgolion Uwchradd Lleol eraill.

Adeiladau

C: Beth fydd yn digwydd i Ysgol Gynradd Queensferry?

A: Nid yw Ysgol Gynradd Queensferry yn cael ei hadolygu. Mae'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi yn yr ysgol gynradd i fynd i'r afael â phroblemau addasrwydd a chyflwr; mae hon yn dal i fod yn flaenoriaeth gan y Cyngor.

C: A yw'r Cyngor eisoes wedi dod i gytundeb ynglŷn â thir dros ben?

A: Nac ydy, nid oes unrhyw gytundeb na thrafodaeth wedi bod ynglŷn â materion tirol mewn cysylltiad â champws Queensferry.